# CEFNOGI PLANT GWASANAETH MEWN YSGOLION YNG NGHYMRU

## ARWEINIAD ARFER GORAU



© Crown copyright 02/11

LIVE ON

THE ROYAL BRITISH LEGION

Registered charity number 219279
www.britishlegion.org.uk

# YNGLŶN Â'R LLENG

Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol wrth galon rhwydwaith cenedlaethol sy'n cefnogi ein cymuned lluoedd Arfog doed a ddelo – gan sicrhau nad yw eu cyfraniad unigryw fyth yn cael ei anghofio. Fe'n crëwyd i uno'r sector elusennau milwrol ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, ac rydym yn parhau yn un o'r sefydliadau uchaf ei aelodaeth yn y DU. Y Lleng yw'r darparwr lles mwyaf yn sector elusennau'r Lluoedd Arfog, gan helpu cyn-filwyr, yn hen ac yn ifanc, i symud yn ôl i fywyd fel sifiliad. Rydym yn helpu gyda chyflogaeth, materion ariannol, seibiant a gwella, hyd at ofal am oes a byw'n annibynnol. Yn 2015/16, fe wnaethom ymateb i dros filiwn o geisiadau am help – mwy nac erioed o'r blaen.

Am wybodaeth bellach, ewch i: **www.britishlegion.org.uk**

Am gymorth, ffoniwch ein llinell gymorth ar 0808 802 8080. Rydym ar agor rhwng 8am a 8pm, 7 niwrnod yr wythnos.



© Crown copyright 02/11

Am wybodaeth am y ddogfen hon anfonwch e-bost at publicaffairs@britishlegion.org.uk
Mae fersiwn print mwy o'r ddogfen hon ar gael o ofyn amdani.



# CYNNWYS





| | |
|---|---|
| Rhagair | 04 |
| Cyflwyniad | 06 |
| **Pennod 1** – Derbyniadau | 11 |
| **Pennod 2** – Lles disgyblion | 19 |
| **Pennod 3** – Cymorth ariannu | 25 |
| **Pennod 4** – Y Gymraeg | 33 |
| **Pennod 5** – Plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol | 35 |
| Casgliadau | 37 |

# RHAGAIR



Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol wrth galon rhwydwaith cenedlaethol sy'n cefnogi ein cymuned Lluoedd Arfog doed a ddelo – gan sicrhau nad yw eu cyfraniad unigryw fyth yn cael ei anghofio. Nid yw'r gymuned honno wedi'i chyfyngu i'r rheini sy'n gwisgo, neu a arferai wisgo, lifrau milwrol yn unig.

Mae personél y Lluoedd Arfog yn gwneud aberthau sylweddol i wasanaethu eu gwlad – ynghyd â'u teuluoedd gan gynnwys eu plant, sef ffocws yr arweiniad hwn.

Gallai cael rhiant i ffwrdd ar leoliad, yn aml mewn sefyllfaoedd peryglus ac am gyfnodau hir o amser, gael effaith sylweddol ar les plentyn. Mae'r Lleng yn ymwybodol bod llawer o blant y Gwasanaeth yn dal o dan anfantais o ran eu mynediad a'u profiad o addysg o ganlyniad i riant yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, a gobeithiwn y gall yr arweiniad a ganlyn helpu i ddangos beth y gellir ei wneud i fynd i'r afael â'r anfanteision hyn a gwella bywydau y plant Gwasanaeth.

Mae'n hanfodol bod gan blant personél y Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu fynediad at yr help a allai fod angen arnynt oherwydd y pwysau unigryw y gallent fod yn eu hwynebu. Amlinellodd maniffesto Cymru y Lleng yr hyn yr oeddem ni'n ei deimlo oedd yn ofynnol i gefnogi plant Gwasanaeth yng Nghymru: ariannu ychwanegol i ysgolion i gefnogi plant Gwasanaeth a gwell adnabyddiaeth o blant Gwasanaeth fel bod ysgolion yn ymwybodol o'u sefyllfa ac yn gallu darparu cefnogaeth os oes angen. Yn yr un modd â'r gymuned Lluoedd Arfog yn gyffredinol, gwyddom fod mwyafrif y teuluoedd Gwasanaeth a'r plant yn hapus ac yn mwynhau buddion bywyd yn y 'teulu Lluoedd Arfog'. Serch hynny, rhaid i ni oll sicrhau pe bai materion yn codi bod cefnogaeth briodol ar gael.

Gobeithiwn y bydd yr arweiniad hwn yn amhrisiadwy wrth gefnogi teuluoedd y Gwasanaeth sy'n cael eu haddysgu yng Nghymru, a'u helpu i lywio'r ystod o wasanaethau cymorth sydd ar gael. Ar gyfer ysgolion a phartneriaid eraill, amlinellwn rai o'r arferion gorau allweddol o Gymru a ddylai fod yr un mor berthnasol i ysgolion sydd â niferoedd mawr neu fach o ddisgyblion Gwasanaeth.

Yng Nghymru rydym yn ffodus iawn bod gennym brosiect SSCE Cymru sydd wedi bod yn codi ymwybyddiaeth o'r heriau posibl sy'n effeithio ar blant Gwasanaeth yng Nghymru, ac mae eu hadnoddau yn wych a dylid eu hyrwyddo'n eang.

Gobeithiaf y bydd y materion a'r enghreifftiau o arfer gorau y tynnir sylw atynt yn y cyhoeddiad hwn yn helpu i'ch cymell a'ch ysbrydoli chi i sicrhau bod plant y Gwasanaeth yn derbyn cefnogaeth lawn i gyflawni eu gwir botensial.

Antony Metcalfe
Rheolwr Ardal Cymru,
Y Lleng Brydeinig Frenhinol

# CYFLWYNIAD

Mae'r arweiniad hwn ar gyfer pawb sydd â diddordeb mewn gwella'r ddarpariaeth addysg i blant Gwasanaeth mewn ysgolion gwladol. Mae'n cynnwys gwybodaeth ac arweiniad i ddarparwyr gwasanaeth; boed hynny'n awdurdodau lleol sy'n cynnal gweithdrefnau derbyn, neu ysgolion ac athrawon eu hunain sy'n addysgu plant Gwasanaeth bob dydd. Bydd gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ddisgyblion Gwasanaeth wedi'u cofrestru yn eu hysgolion felly mae hwn yn fater sydd o bwys i bawb, nid dim ond yr ardaloedd hynny gyda phresenoldeb milwrol mawr a gweladwy.

Mae gwybodaeth hefyd i rieni plant Gwasanaeth, sy'n esbonio'r hyn y dylent ei ddisgwyl a ble i ganfod arweiniad pellach pe bai ei angen arnynt.

**Diben yr arweiniad hwn yw:**

- Tynnu sylw at y materion sydd o'r pwys mwyaf i ddisgyblion Gwasanaeth a'u teuluoedd;
- Esbonio pa gymorth sydd eisoes ar gael a chyfrifoldebau cyfredol llywodraeth a darparwyr addysg;
- Darparu enghreifftiau o arfer gorau o bob cwr o Gymru.

Nid yw'r Lleng ar ei phen ei hun wrth weithio i wella cefnogaeth i Blant Gwasanaeth ac mae'n gweithio gydag elusennau eraill – megis MKC Heroes a Reading Force y mae'r ddwy yn cael eu henwi yn yr arweiniad hwn – sefydliadau eraill, y Ffederasiynau Teuluoedd, a Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hyn. Bydd yr arweiniad hwn yn helpu i gyfeirio'r rheini sydd angen help at y datrysiad gorau os byddant yn dod ar draws problemau.

Yn 2011 cafodd egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog eu cynnwys mewn deddfwriaeth o ganlyniad i ymgyrchu gan y Lleng Brydeinig Frenhinol. Ers hynny, mae llywodraethau cenedlaethol a lleol, a dros 1,500 o fusnesau, elusennau a sefydliadau eraill, wedi ymrwymo i sicrhau bod egwyddorion allweddol yn cael eu cadw:

- Ni ddylai'r rheini sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, boed yn Barhaol neu Dros Dro, y rheini sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol, a'u teuluoedd, wynebu unrhyw anfantais o'i gymharu â dinasyddion eraill yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a masnachol; a
- Bydd ystyriaeth arbennig yn briodol dan rai amgylchiadau, yn enwedig ar gyfer y rheini sydd wedi rhoi'r mwyaf, megis y rhai sydd wedi'u hanafu neu mewn profedigaeth.




Heddiw, mae pob awdurdod lleol ym Mhrydain Fawr a nifer yng Ngogledd Iwerddon wedi gwneud addewid cyhoeddus i gefnogi a gweithredu egwyddorion y Cyfamod hwn.

Mae'r arweiniad hwn yn adeiladu ar y gwaith gwych a'r adnoddau a gyflenwir gan **brosiect Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru (SSCE Cymru)**. Mae **Canllawiau i Ysgolion a Rhieni** SSCE Cymru yn darparu ystod eang o wybodaeth a chefnogaeth ac nid yw'r arweiniad hwn yn ceisio dyblygu, ond adeiladu ar adnoddau o'r fath. Mae'r Lleng yn gwerthfawrogi bod gan lawer o ysgolion eu gwasanaethau cymorth eu hunain y mae plant Gwasanaeth yn gallu eu defnyddio a gobeithio y gellir defnyddio'r adnodd hwn i gefnogi'r rhain.

Er y bydd swmp yr addysg yn cael ei gyflenwi gan ysgolion, mae darparwyr addysg eraill, yn rhai ffurfiol ac anffurfiol, ble y mae plant yn derbyn addysg a dysg. Bydd unrhyw waith i godi ymwybyddiaeth o anghenion cymorth posibl plant Gwasanaeth wrth gwrs yn cael ei groesawu yn y lleoliadau hyn hefyd.

AMCANGYFRIFON O NIFER Y PLANT GWASANAETH YN Y DEYRNAS UNEDIG




Amcangyfrifon o Ofsted, 2011

Arweiniad i rieni ac ysgolion: **http://www.sscecymru.co.uk/toolkit-events**

**Prosiect SSCE Cymru**

Mae SSCE Cymru yn brosiect Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a sefydlwyd yn 2014 sy'n codi ymwybyddiaeth o'r heriau posibl y gall plant Gwasanaeth mewn ysgolion yng Nghymru eu hwynebu o ganlyniad i leoli a/neu symudedd (symud tŷ/cartref). Nod y prosiect, a ariennir trwy Gronfa Cymorth Addysg y Weinyddiaeth Amddiffyn, yw rhoi gwell dealltwriaeth i ysgolion ac awdurdodau lleol o anghenion posibl a allai fod gan blant Gwasanaeth a chryfhau cysylltiadau ar draws Cymru i helpu i ddatblygu a rhannu arfer da.

**www.sscecymru.co.uk/home.php?page_id=1&setLanguage=2**
E-bost: **info@sscecymru.org.uk**

## PLANT GWASANAETH YNG NGHYMRU – FFEITHIAU CYFLYM

Canfu cyfrifiad y DU yn 2011 bod 2,486 o blant yng Nghymru ble gwnaeth Person Cyswllt y Cartref (HRP) ddatgan ei fod yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Dylid nodi, serch hynny, i'r cyfrifiad fethu casglu plant ble'r oedd y sawl nad oedd yn HRP yn y Lluoedd Arfog.

**CYFRIFIAD UK 2011**

**2,486**

**PLANT GWASANAETH YNG NGHYMRU**









# PENNOD UN

## DERBYNIADAU

Mae dod o hyd i a sicrhau lle yn yr ysgol i blentyn Gwasanaeth yn cyflwyno heriau unigryw nad yw teuluoedd nad ydynt yn y Gwasanaeth yn eu hwynebu yn rheolaidd. Ar gyfer teuluoedd gwasanaeth, ni ddylai llywio trwy'r broses dderbyniadau'r ysgol fod yn ddim gwahanol i'r hynny a brofir gan eu cymheiriaid sifiliad os yw'n cael ei wneud ar yr un pryd a phob teulu arall. Serch hynny, mae teuluoedd Gwasanaeth yn aml yn cael eu hunain yn profi anawsterau â'r broses oherwydd eu bod yn cael eu gorfodi i symud tŷ ac ysgol y tu hwnt i'r amserlen dderbyniadau safonol. Mae bywyd yn y gwasanaeth yn gofyn am radd uchel o symudedd i deuluoedd, a bydd rhieni sy'n gwasanaethu yn cael eu symud o amgylch y wlad, ac yn wir y byd, ar amserlen nad oes ganddynt unrhyw ddylanwad arni.

Pan fydd yn rhaid symud ysgol yng nghanol blwyddyn academaidd, pan fydd lleoedd eisoes wedi'u dyrannu i ddisgyblion eraill nad ydynt yn y Gwasanaeth, rhaid defnyddio proses dderbyniadau ar wahân. Gelwir hyn yn 'dderbyniadau yn ystod y flwyddyn' ac mae teuluoedd Gwasanaeth wedi adrodd am anawsterau wrth lywio eu ffordd trwy'r broses.

Mae gwybodaeth ar dderbyniadau ysgol safonol i'w chael yma:
**http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/admissions-and-appeals-code/?skip=1&lang=cy**

**Pam mae derbyniadau 'yn ystod y flwyddyn' yn anodd i deuluoedd Gwasanaeth:**

1. Yn sawl rhan o Gymru, mae galw mawr am leoedd yn rhai ysgolion, pa un a ydych chi wedi ymgeisio yn unol â'r amserlen dderbyn safonol neu yn ystod y flwyddyn.
2. Pan fydd teulu Gwasanaeth yn chwilio am le ysgol yn ystod y flwyddyn, fe all hi fod yn anodd canfod ysgolion gyda lleoedd ar gael i dderbyn mwy o ddisgyblion. Pan fydd yr ysgolion hyn yn gwrthod derbyniadau yn ystod y flwyddyn gan blant Gwasanaeth, mae hyn yn gorfodi'r teulu i edrych ymhellach am le ysgol.

Gall derbyniadau yn ystod y flwyddyn gymhlethu pethau hefyd i ysgolion. Yn 2015 cynhaliodd SSCE Cymru arolwg o sampl o ysgolion yng Nghymru yr oedd ganddynt blant Gwasanaeth fel disgyblion. Awgrymodd adborth yn aml iawn bod ysgolion yn cael eu hysbysu yn rhy hwyr y byddai plentyn yn eu cyrraedd neu yn eu gadael, gan ei gwneud hi'n anodd sefydlu cefnogaeth a chynllunio yn unol â hynny.

**Beth yw'r rheolau cyfredol ar dderbyniadau ysgol?**
Yng Nghymru, awdurdodau derbyn i ysgolion sy'n gyfrifol am drefniadau derbyn. Yr awdurdod derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol ac a reolir yn wirfoddol yw'r awdurdod lleol, a'r awdurdod derbyn ar gyfer ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol yw'r corff llywodraethu. Rhaid i awdurdodau derbyn gydymffurfio â Chod Derbyn i Ysgolion a Chod Apeliadau Derbyn i'r Ysgol. (I'r Ysgol (Tudalen 11).)



© MBI/Shutterstock.com

## RHEOLAU AR DDERBYNIADAU YSGOL

Ar gyfer dosbarthiadau babanod yng Nghymru, mae cyfyngiad o 30 disgybl yn berthnasol i feintiau dosbarth (derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2). Serch hynny, mae plant Gwasanaeth yn cael eu hystyried yn 'ddisgyblion a eithrir':
Ble nad ellir darparu addysg i rai mathau o blant (disgyblion a eithrir) yn yr ysgol o fewn dosbarth babanod ble na eir yn uwch na'r cyfyngiad heb gymryd mesur arbennig a fyddai'n niweidio addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon ar adnoddau, ni ddylid cyfrif y plant hynny at ddibenion canfod a yw'r cyfyngiad o 30 disgybl yn cael ei ragori ai peidio.

Mae plant a eithrir yn cynnwys Plant Personél y Lluoedd Arfog a dderbynnir y tu hwnt i'r cylch derbyn arferol.

**Dywed y cod derbyniadau:**
**I blant personél Gwasanaeth y DU:**
- 'Rhaid dyrannu lleoedd ysgol i blant a'u teuluoedd cyn y flwyddyn ysgol i ddod os yw'n cyd-fynd â llythyr swyddogol y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n datgan y dyddiad dychwelyd. Rhaid i awdurdodau derbyn hefyd 'beidio â gwrthod lle i blentyn o'r fath oherwydd nad yw'r teulu yn byw yn yr ardal awdurdod lleol ar hyn o bryd'.

**Rhaid i awdurdodau derbyn:**
- Sicrhau bod anghenion plant y teuluoedd hyn yn cael eu hystyried.
- Dyrannu lle ysgol o flaen llaw, pe bai'r ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf wrth iddynt symud i'w lleoliad;
- Gwahodd cynrychiolydd Gwasanaeth i ymuno â'r fforwm derbyniadau;
- Derbyn cyfeiriad post Uned ar gyfer ceisiadau gan bersonél Gwasanaeth yn absenoldeb cyfeiriad post cartref newydd.

**Ni ddylai awdurdodau derbyn:**
- Gadw lleoedd ar gyfer blociau o'r plant hyn
- Gwrthod lle i blentyn o'r fath oherwydd nad yw'r teulu yn byw yn yr ardal awdurdod lleol ar hyn o bryd.

**Beth y gallai hyn ei olygu i deuluoedd Gwasanaeth:**

- Ar gyfer meintiau dosbarth Babanod yng Nghymru – os ydych chi'n symud i ardal, mae ysgol yn gallu derbyn plant Gwasanaeth y tu hwnt i'r cylch derbyn arferol hyd yn oed os yw cyfyngiad maint dosbarth o 30 o ddisgyblion wedi'i gyrraedd. Dywed rheolau derbyniadau ysgol am feintiau dosbarth babanod yng Nghymru bod plant personél Lluoedd Arfog yn cael eu hystyried yn 'ddisgyblion a eithrir'. Mae hyn yn golygu pan fydd ysgol yn edrych a yw dosbarth wedi mynd dros y cyfyngiad o 30 disgybl, ni ddylid cyfrif plant Gwasanaeth. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod modd derbyn plant Gwasanaeth i ddosbarth hyd yn oed os yw'r uchafswm o 30 disgybl wedi'i gyrraedd.
- Rhaid i awdurdodau derbyn cyfeiriad uned fel prawf o gyfeiriad wrth ymgeisio am le ysgol cyn i'r symud ddigwydd. Mae hyn yn ddefnyddiol os yw teulu yn gwybod eu bod yn symud ond nad oes ganddynt gyfeiriad cartref hyd yma.

**Pwyntiau i'w cofio:** Dim ond i feintiau dosbarth babanod yn unig y mae meini prawf disgyblion a eithrir yn berthnasol. Nid yw'n berthnasol i'r blynyddoedd hynny y tu hwnt i Flwyddyn 2, disgyblion sy'n mynd i ysgol uwchradd, cyn-filwyr na'r teuluoedd hynny nad ydynt wedi'u lleoli yn yr ardal ble maen nhw'n ymgeisio am le ysgol. Nid yw plant Gwasanaeth yn derbyn unrhyw flaenoriaeth ychwanegol o dan yr arweiniad, wrth eu rhoi ar restr aros am ysgol.

Ar gyfer derbyniadau ysgol uwchradd, nid yw plant Gwasanaeth yng Nghymru yn derbyn unrhyw statws ychwanegol ac er nad oes cyfyngiad statudol ar feintiau dosbarth ar gyfer dosbarthiadau ysgol uwchradd, anogir ysgolion i gynnal dosbarthiadau o ddim mwy na 30. Os yw ysgolion yn llawn, nid oes yn rhaid iddynt wneud eithriad ar gyfer plentyn Gwasanaeth yn awtomatig. Mae proses apeliadau annibynnol y gall teuluoedd ei dilyn os yw derbyniad yn cael ei wrthod. Mae gwybodaeth i'w chael yn y cod derbyn – gweler dolen uchod.





## Ysgol Llanilltud Fawr:

Pan fydd disgybl Gwasanaeth newydd yn cyrraedd yr ysgol, mae'n cael ei gyflwyno i'r Swyddog Partneriaeth, sef y prif gyswllt ar gyfer disgyblion Gwasanaeth. Maen nhw'n cael gwybod ble mae'r aelod hwn o staff wedi'i leoli ac mae'n cael gwybod am yr holl gefnogaeth y mae'r ysgol yn ei chynnig trwy gydol eu hamser yn yr ysgol.

Os yw teulu yn cael ei leoli, bydd yr aelod hwn o staff yn cwrdd â'r disgybl i fynd trwy'r wybodaeth newydd gan yr ysgol megis enwau'r staff y byddant yn cwrdd â hwy, eu gwisg newydd, neu gwahaniaethau yn y cwricwlwm. Yna mae'r disgybl yn derbyn dogfen i lanw gwybodaeth am ei hun – pethau maen nhw'n hoffi ac nad ydynt yn hoffi, pethau maen nhw'n dda ynddynt, pethau y gallant wella arnynt. Mae hyn ar gyfer eu hathrawon dosbarth er mwyn i'r staff allu dysgu mwy am y myfyriwr i wneud y cyfnod pontio mor rhwydd â phosibl. Mae hyn yn helpu i oresgyn rhwystrau ac yn helpu'r plentyn i ddysgu ychydig am yr ysgol ac i'r ysgol ddysgu mwy am y plentyn.

## Cyngor Castell-nedd Port Talbot:

Mae Castell-nedd Port Talbot yn gweithio'n galed i gefnogi teuluoedd Gwasanaeth a'u plant, gan ddarparu cymorth gyda derbyniadau ysgol cyn i deuluoedd gyrraedd yr ardal. Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio gyda nifer o deuluoedd Gwasanaeth sy'n adleoli i'r ardal ac sydd wedi cysylltu â hwy tra'u bod hwy dal dramor, i sicrhau bod modd iddynt wneud cynlluniau a gwneud trefniadau ysgol i'w plant mewn da bryd. Mae hyn wedi caniatáu i deuluoedd gyflwyno ceisiadau ysgol cyn iddynt gyrraedd yr ardal, gan roi tawelwch meddwl i'r teulu a rhoi amser i ysgolion gynllunio erbyn iddynt gyrraedd.

Mae Castell-nedd Port Talbot hefyd yn gofyn y cwestiwn ar eu ffurflenni derbyn i'r ysgol er mwyn adnabod plant Gwasanaeth felly pe bai teuluoedd yn cyrraedd 'yn ystod y flwyddyn', mae'r awdurdod derbyn yn gwybod eu bod yn blant Gwasanaeth. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn defnyddio meddalwedd sy'n caniatáu iddynt gasglu data a darparu gwybodaeth gywir ar nifer y plant Gwasanaeth mewn ysgolion, gan sicrhau bod ymwybyddiaeth ohonynt.

Mae cod derbyn ac apeliadau ysgolion ar gael yma: **http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/admissions-and-appeals-code/?skip=1&lang=cy**

**Cymorth pellach ar gyfer teuluoedd gwasanaeth:**
Mae cymorth ac arweiniad proffesiynol ar gael i rieni gydag ymholiadau derbyn gan y Gwasanaeth Cynghori ar Addysg Plant (CEAS), rhan o Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc y Weinyddiaeth Amddiffyn (DCYP). Mae'r CEAS yn cynnig gwybodaeth werthfawr ar dderbyniadau ysgol a llawer o faterion eraill hefyd ac mae'n cynnal llinell gymorth ffôn ac ar-lein i rieni plant Gwasanaeth sydd ag ymholiadau.

E-bost: **dcyp-ceas-enquiries@MoD.uk**
Gwefan yma: **https://www.gov.uk/guidance/childrens-education-advisory-service**

Mae cymorth ar gael gan y tri gwasanaeth Ffederasiynau Teuluoedd. Maen nhw'n cynorthwyo nifer o deuluoedd gydag ymholiadau yn ymwneud ag ysgolion a gallant helpu i drafod y prosesau a darparu cyngor:

Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin: **www.aff.org.uk**
Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges: **www.nff.org.uk**
Ffederasiwn Teuluoedd RAF: **www.raf-ff.org.uk**

Gall teuluoedd hefyd gysylltu â'u hawdurdod derbyn lleol y gall eu swyddogion Derbyn helpu gydag ymholiadau a darparu cyngor manylach yn benodol am yr ardal neu'r ysgol.

Anghenion dysgu ychwanegol / Anghenion addysgol arbennig
Os oes gan eich plentyn anghenion dysgu ychwanegol, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynghori rhieni i gysylltu â'r CEAS:
**http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/additional-learning-special-educational-needs/?skip=1&lang=cy**









# PENNOD 2

## LLES PLANT GWASANAETH

Gallai bywydau plant Gwasanaeth fod dan fwy o straen na'u cyfoedion sifiliad. Gall y symudedd uchel a'r symudiadau tŷ ac ysgol niferus a all ddod law yn llaw â gyrfa filwrol ansefydlogi'r teulu cyfan, yn enwedig y plant. Nid yw pob plentyn Gwasanaeth yn ei chael hi'n heriol ac mae manteision anferth a ddaw gyda'r ffordd o fyw, ond fe all symudiadau rheolaidd ei gwneud hi'n anodd setlo yn yr ysgol, i wneud ffrindiau newydd, ac i gael mynediad at gwricwlwm cyson. Yr hyn sy'n cael effaith llawer yn fwy, serch hynny, yw'r effaith ar y plentyn pan fydd rhiant yn cael ei leoli, boed hynny ar daith weithredol, hyfforddiant neu leoliadau dramor. Yn ystod y cyfnodau hyn y bydd pryder ar ei uchaf a gellir rhoi pwysau emosiynol trwm am y plant Gwasanaeth. Mae cyfnodau hir ar wahân i riant yn brofiad gofidus yn ei hun, ond ychwanegwch at hynny'r wybodaeth y gallai rhiant gael ei niweidio tra ar leoliad, mae'r straen emosiynol ar blant Gwasanaeth ar adegau o'r fath yn ddifrifol.

Canfu gwaith gan brosiect SSCE Cymru yng Nghymru yn 2015[1], a oedd yn ceisio adborth gan ysgolion eu hunain, y gall plant Gwasanaeth wynebu aflonyddwch yn eu lles cymdeithasol ac emosiynol. Dywedodd ysgolion yng Nghymru y gall plant Gwasanaeth wynebu problemau megis:

- Anawsterau wrth setlo i ysgol newydd;
- Anawsterau wrth wneud ffrindiau;
- Teimlo'n unig
- Teimlo pryder am riant sydd ar leoliad;
- Gorfod addasu i gwricwlwm gwahanol, gorfod ailadrodd eu dysg, neu fylchau yn eu dysg.

Canfu ymchwil gan Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin yn 2015 hefyd bod cyfran uwch o ddisgyblion Blwyddyn 10/11 yn adrodd nad oedd ganddynt unrhyw un i siarad â hwy os oeddent yn pryderu am rywbeth. Teimlodd mwyafrif y rhieni hefyd bod eu plant angen cymorth ychwanegol tra'r oedd y rhiant yn gwasanaethu ar leoliad.[2]

Mae camau eisoes yn cael eu cymryd gan rai ysgolion ar draws Cymru i ostwng unrhyw effaith negyddol bywyd Gwasanaeth ar les emosiynol plant ac i ostwng yr anfanteision y maen nhw'n eu hwynebu. Mae ysgolion eisoes yn gwneud llawer o waith i hyrwyddo llythrennedd emosiynol ac mae'n bwysig bod cefnogaeth o'r fath yn ystyried plant Gwasanaeth.

[1] Plant Gwasanaeth mewn Addysg yng Nghymru: Astudiaeth o'r data sydd ar gael ar niferoedd a darpariaeth. WLGA< SSCE Cymru, MOD. Medi 2015

[2] Cyrhaeddiad Addysgiadol Plant y Fyddin. Noret, Mayor et al. York St. John University. 2015

Yng Nghymru nid yw ysgolion ar hyn o bryd yn ofynnol i nodi plant Gwasanaeth a chasglu'r data hwnnw ar gyfer y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC). Gan hynny, mae'n bosibl mai ychydig o ddata sydd gan ysgolion, os o gwbl, am nifer y plant Gwasanaeth sydd wedi cofrestru yn yr ysgol. O ganlyniad, efallai nad ydynt yn ymwybodol o'r straen y mae rhai plant Gwasanaeth yn ei brofi, er enghraifft, os yw eu rhiant ar leoliad. Bydd rhai ysgolion yn gwybod os yw plentyn o deulu Gwasanaeth ac mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru yn casglu data ar blant Gwasanaeth yn eu hardal, ond nid yw hyn yn orfodol ac mae'n anghyson.

**Cymorth pellach i Deuluoedd Gwasanaeth:**

**Y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc**

Mae DYCP wedi cynhyrchu arweiniad, Families on the Move, sy'n cynnig cyngor ar sut i ddelio â'r cyfnod pontio wrth symud er mwyn isafu ar yr effaith ar blant cymaint ag y gellir. Mae'n cynnwys rhestr wirio ddefnyddiol o'r camau a manylion cyswllt y llinell gymorth CEAS. Gellir cael copi trwy gysylltu â DYCP.

Mae gwybodaeth bellach ar gael ar y wefan hon:
**www.gov.uk/government/groups/directorate-children-and-young-people**

**SSCE Cymru:**

Mae prosiect SSCE Cymru wedi cynhyrchu cyfres o straeon digidol, sy'n caniatáu i blant Gwasanaeth rannu eu profiadau eu hunain am sut beth yw cael rhiant yn y Lluoedd Arfog.
**http://www.sscecymru.co.uk/home.php?page_id=45&setLanguage=2**

**'Croeso i Gymru' Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu pecyn o gefnogaeth ar gyfer y gymuned Lluoedd Arfog sy'n cynnwys cefndir i'r system addysg yng Nghymru

Fersiwn Gymraeg:
**http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/armedforces/package-of-support/?skip=1&lang=cy**



## ENGHREIFFTIAU O ARFER GORAU

### MKC Heroes

Mae Military Kids Club (MKC) Heroes yn fenter ryngwladol o lais y disgybl a ffurfiwyd i gefnogi plant a phobl ifanc Gwasanaeth a chyn-filwyr. Sefydlwyd y grŵp yn 2010 fel HMS Heroes i alluogi i blant personél sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr sy'n mynd trwy heriau tebyg i ddod ynghyd a chefnogi ei gilydd. Mae'n caniatáu i blant Gwasanaeth esbonio wrth eraill yr heriau unigryw y mae plant yn eu hwynebu wrth fod yn rhan o deulu milwrol ac mae'n cynnig man diogel i siarad â ffrindiau sy'n deall beth mae'n ei olygu i fod yn ddisgybl Gwasanaeth a gall ddarparu'r gefnogaeth y mae ei hangen ar ddisgyblion Gwasanaeth, pan mae ei hangen fwyaf. Ar hyn o bryd mae dros 9,000 aelod o MKC Heroes ar draws 140 o ysgolion wedi'u lleoli ar draws y byd i gyd.

Gwybodaeth bellach: **www.mkcheroes.co.uk**

### Ysgol Llanilltud Fawr / Ysgol Uwchradd Aberhonddu

Mae'r ysgol ym Mro Morgannwg yn trefnu digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn fel rhan o'u gwaith MKC Heroes, gan gefnogi plant Gwasanaeth a'u dwyn ynghyd â phlant nad ydynt yn rhai Gwasanaeth. Mae 'Llysgenhadon Y Weinyddiaeth Amddiffyn' yr ysgol hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd trwy gydol y flwyddyn i gynllunio a threfnu digwyddiadau coffau a dyddiau elusennol megis 'diwrnod Coch, Gwyn a Glas' a Diwrnod y Lluoedd Arfog. Mae'r ysgol hefyd yn cynnal fforwm rhieni'r Weinyddiaeth Amddiffyn ble y mae rhieni disgyblion Gwasanaeth cyfredol yn gallu dod i mewn a chlywed am ddigwyddiadau y mae'r ysgol yn eu trefnu neu'r diweddaraf ar ddigwyddiadau sydd wedi digwydd y tymor hwnnw.

Mae'r ysgol wedi uno â Motivational Preparation College for Training (MPCT) i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i blant Gwasanaeth. Mae staff MPCT yn mynychu'r ysgol ac yn gweithio ar nifer o wahanol heriau gyda disgyblion megis meithrin tîm, arweinyddiaeth a chyfathrebu. Mae'r hyfforddwyr hefyd yn cynnig mentora i'r plant Gwasanaeth trwy gydol y flwyddyn ac yn cefnogi'r myfyrwyr hyn os byddant ei angen. Mae'r ysgol hefyd wedi meithrin cysylltiadau gydag **Ysgol Uwchradd Aberhonddu** ac yn cydweithio i ddarparu dyddiau herio ble y mae disgyblion o'r ddwy ysgol yn dod ynghyd i gyflawni heriau a gweithgareddau, cael hwyl a gwneud ffrindiau.

# ENGHREIFFTIAU O ARFER GORAU

## Ysgol Gynradd Prendergast

Mae gan yr ysgol yn Hwlffordd 14% o blant Gwasanaeth o fewn yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnal clwb MKC Heroes ar ôl ysgol, gan gefnogi plant Gwasanaeth a'u ffrindiau trwy ddarparu gweithgareddau hwyliog a chyfleoedd i sgwrsio, cefnogi ei gilydd a chael hwyl. Fe'i gynhelir ar y cyd â gweithiwr allweddol MOD yr ysgol sef y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer plant a'u teuluoedd.







## Reading Force

Mae Reading Force yn elusen ddarllen a rennir gan dri gwasanaeth sy'n rhoi llyfrau a llyfr lloffion i deuluoedd. Mae'n cynnig ei wasanaeth i holl deuluoedd y Lluoedd o dan unrhyw amgylchiadau, yn y cartref neu i ffwrdd, ac mae'n arbennig o ddefnyddiol pan mae rhiant oddi cartref ar leoliad neu hyfforddiant fel ffordd o aros yn agos at riant absennol, ac i gadw mewn cysylltiad gyda neiniau a teidiau a'r teulu estynedig sy'n byw ymhell i ffwrdd. Gall teuluoedd ofyn am eu llyfrau am ddim a llyfrau lloffion arbennig trwy wefan Reading Force, ac anogir plant o bob oed, o'u genedigaeth i 18, i gymryd rhan yn y gweithgaredd hwyliog hwn. Gall plant y Lluoedd Arfog, Milwyr Parhaol a Chyn-filwyr gymryd rhan am ddim.

Mae'r wefan yn darparu gwybodaeth lawn ar sut i gymryd rhan:
**www.readingforce.org.uk**








Dadansoddiad o ariannu ESF sydd wedi dod i ysgolion a phrosiectau yng Nghymru:

| | |
|---|---|
| 2011 - **£70,183.50** | 2015 - **£322,643.00** |
| 2012 - **£91,079.00** | 2016 - **£436,945.00** |
| 2013 - **£128,408.00** | 2017 - **£406,188.00** |
| 2014 - **£328,071.00** | Cyfanswm a Ddyfarnwyd - **£1,783,517.50** |



# PENNOD 3

## CEFNOGAETH ARIANNU

Yn wahanol i Loegr a Gogledd Iwerddon, nid oes ariannu penodol yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd i gefnogi plant Gwasanaeth yng Nghymru fel grŵp. Fe wnaeth y Lleng ddatgan yn ei maniffesto etholiad Cynulliad Cymru 2016, dim ond trwy Gronfa Gymorth Addysg Y Weinyddiaeth Amddiffyn y gall ysgolion yng Nghymru gael mynediad at arian i gefnogi eu disgyblion Gwasanaeth sy'n agored i bob ysgol yn y DU.
Er bod ysgolion yng Nghymru wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau ariannu ac yn gwneud gwaith gwych o ganlyniad i hynny, mae'r Lleng yn mynnu bod absenoldeb Premiwm Disgybl Gwasanaeth (SPP) yn gadael plant personél sy'n gwasanaethu yng Nghymru o dan anfantais o'i gymharu â'u cyfoedion mewn mannau eraill yn y DU. Mae'r Premiwm Disgybl Gwasanaeth yn darparu £300 fesul disgybl Gwasanaeth i helpu i ddarparu cymorth bugeiliol ychwanegol yn ystod cyfnodau o leoliad rhiant a gostwng yr anfantais y gallai plant Gwasanaeth ei wynebu.

Gan nad oes gofyn i ysgolion yng Nghymru adnabod plant Gwasanaeth yn y cyfrifiad ysgolion, mae hefyd yn anodd gwybod sut y mae plant Gwasanaeth yn datblygu a pha gefnogaeth a allai fod ei hangen arnynt.

### Cronfa Cymorth Addysg

Mae'r Gronfa Cymorth Addysg (ESF) yn gronfa'r Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n cynorthwyo ysgolion cyhoeddus i liniaru ar effeithiau symudedd neu leoli ar eu cymunedau Gwasanaeth a hynny'n filwyr Parhaol a Dros Dro. Ers 2011, mae'r gronfa wedi darparu dros £1.7 miliwn i brosiectau yng Nghymru, gan gefnogi gwaith arloesol i gefnogi plant Gwasanaeth. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn, prosiect SSCE Cymru a phartneriaid Cyfamod lleol wedi gwneud llawer o waith i hyrwyddo'r gronfa gan helpu i sicrhau bod ysgolion – a phlant Gwasanaeth – yng Nghymru yn elwa'n llawn ohono.

Ers ei chreu, mae'r gronfa wedi'i chyfyngu gan amser a'r bwriad oedd mai 2017/18 fyddai'r flwyddyn ddiwethaf y gellir cyflwyno ceisiadau i'r gronfa. Fel y dangosir isod, mae'r Lleng yn ymwybodol o rai enghreifftiau gwych o fentrau a ariennir gan ESF a chan hynny byddai'n croesawu parhad yn y gronfa hon, yn enwedig yn absenoldeb SPP yng Nghymru.

### Ysgol Gynradd Prendergast

Wedi'i leoli yn Hwlffordd, Sir Benfro, Prendergast yw'r ysgol y bydd llawer o deuluoedd Gwasanaeth sydd wedi'u lleoli ym marics Cawdor, Brawdy yn ei dewis.

Mae gan yr ysgol 71 o blant Gwasanaeth o gyfanswm poblogaeth ysgol o 525 ac mae'n gweithio yn galed i sicrhau bod y disgyblion hyn wedi'u hintegreiddio'n llawn gyda phlant nad ydynt yn rhai Gwasanaeth. Yn absenoldeb Premiwm Disgybl Gwasanaeth yng Nghymru, fe wnaeth yr ysgol geisio ariannu grant Y Weinyddiaeth Amddiffyn i gyflogi gweithiwr allweddol Y Weinyddiaeth Amddiffyn i ymgysylltu'n uniongyrchol gyda phlant Gwasanaeth, teuluoedd a gwasanaethau lles Y Weinyddiaeth Amddiffyn, wedi'u lleoli yn lleol yn y barics. Y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n gweithio gyda phlant y Lluoedd Arfog i'w cefnogi, eu helpu i setlo ac asesu a yw'r plentyn newydd angen ymyrraeth neu gefnogaeth bellach.

Mae'r ysgol yn gweithio'n galed i groesawu plant Gwasanaeth newydd i'r ysgol a'r ardal, gan ddarparu pecyn dechrau a chynorthwyo disgyblion gyda bydi am yr ychydig ddyddiau cyntaf. Pan fydd disgybl Gwasanaeth yn gadael yr ysgol, maen nhw hefyd yn llenwi pecyn gadael i'w helpu yn ystod y trosglwyddiad. Mae'r broses hon wedi bod mor llwyddiannus mae wedi'i hehangu i'r holl blant newydd sy'n dechrau yn yr ysgol.

Mae'r ysgol hefyd yn cynnal clybiau ar ôl ysgol i blant Gwasanaeth a'u ffrindiau, gan helpu i feithrin cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymorth. Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth y tu hwnt i oriau gwych i'r holl ddysgwyr gyda darpariaeth benodol i blant Gwasanaeth a hefyd trwy'r cynllun Military Kids Club Heroes. Mae hwn ar gael i'r holl blant Gwasanaeth a'u ffrindiau ar draws yr ardal.

Er mwyn helpu i gryfhau prosesau ymsefydlu a gadael yr ysgol, ymwelodd staff ag Ysgol Mary's CofE yn Credenhill, Swydd Henffordd i adnabod arfer da ac i ddefnyddio'r wybodaeth hon i gyfoethogi ymhellach ar eu dulliau cefnogi. Fe wnaethant arsylwi ar sut yr oedd y data yn cael ei gasglu, ei goladu a'i defnyddio i sicrhau nad yw plant o gefndir Gwasanaeth yn dioddef yn eu dysg o gymharu â disgyblion eraill. Fe wnaethant hefyd edrych ar sut y mae defnyddio digwyddiadau'r ysgol gyfan yn sicrhau bod holl aelodau'r gymuned ysgol â dealltwriaeth ddyfnach o fywydau'r teuluoedd Gwasanaeth.



### Rhondda Cynon Taf

Adnabu cyngor Rhondda Cynon Taf (RCT) y gallai fod diffyg yn narpariaeth plant Gwasanaeth yn yr awdurdod oherwydd nad oeddynt yn gwybod faint o blant Gwasanaeth a oedd yn mynychu ysgolion. Yn 2015, cymerodd yr awdurdod gamau i fynd i'r afael â'r bwlch hwn a sicrhau ariannu gan ESF ar gyfer dau Swyddog Cymorth Addysg HMF. Trwy weithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yn yr ardal, mae'r swyddogion hyn yn helpu i adnabod plant Gwasanaeth ar draws pob ysgol o fewn yr awdurdod lleol, gan godi ymwybyddiaeth o'u hanghenion a meithrin perthnasau gyda'r Gymuned Filwrol, ysgolion a phartneriaid. Ers hynny mae'r prosiect wedi canfod bod yna 218 o blant Gwasanaeth ar draws 71 ysgol yn yr awdurdod lleol ac mae ysgolion bellach yn gofyn y cwestiwn a ganlyn i wella'r adnabyddiaeth: *A yw'r plentyn yn aelod o deulu Lluoedd Arfog sydd eisoes yn byw, yn dychwelyd neu'n aros i symud i'r cyfeiriad/cod post uchod?*

### Ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr

Gan ddefnyddio'r ESF yn 2016/17, mae'r ysgol wedi darparu opsiynau i blant Gwasanaeth ar gyfer peth darpariaeth ychwanegol trwy 'Cytundeb i Lwyddiant' yr ysgol. Ymhlith yr opsiynau a ddarparwyd i ddisgyblion oedd gwersi cerddoriaeth, tiwtora llythrennedd a rhifedd, gwersi Cymraeg, a sesiynau meithrin tîm.

## CYMORTH PELLACH I DEULUOEDD GWASANAETH

### Y Lleng Bryeinig Frenhinol Adran merched - Cynllun gwobrwyo'r Llywydd:

Gall cynllun gwobrwyo'r Llywydd ddarparu grantiau addysgol i blant personél sy'n gwasanaethu a chyn-wasanaeth hyd at oedran prifysgol.
**http://www.rblws.org.uk/how-we-help/president-s-award-scheme**

## Ysgol Plascrug, Aberystwyth

Mae Plascrug yn ysgol gynradd o ryw 400 o ddisgyblion yn Aberystwyth, gorllewin Cymru. O'i chymharu â rhai ardaloedd eraill yng Nghymru, nifer isel o bersonél a theuluoedd Gwasanaeth sy'n byw yno ond nid yw hyn wedi atal yr ysgol rhag cymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod gan deuluoedd Gwasanaeth sydd yn byw yno fynediad at y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt.

Yn 2016 gwnaeth y Pennaeth Menna Sweeney gais i ESF, ar ôl adnabod dau deulu Gwasanaeth yn yr ysgol. Teimlodd yr ysgol y dylid sefydlu mwy o gymorth i'r teuluoedd hyn sy'n delio â materion a heriau unigryw. Trwy weithio gyda'r teuluoedd, adnabu'r ysgol y byddai cefnogaeth gyda gofal ar ôl ysgol ar gyfer y plant o fudd i'r rhieni, yn enwedig pan fydd un rhiant ar leoliad. Nodwyd y byddai adnoddau newydd i'r ystafell ddosbarth y gallai'r plant Gwasanaeth a'u cyfoedion eu defnyddio, yn faes blaenoriaeth ychwanegol. Ymgynghorodd yr ysgol gydag eiriolwr Lluoedd Arfog lleol a'r bartneriaeth Cyfamod lleol i feithrin cysylltiadau a dealltwriaeth o'r materion yn lleol.

Gydag ariannu ESF yn 2016/2017, mae'r ysgol wedi llwyddo i ddarparu clwb ar ôl ysgol newydd i ddarparu gofal i'r plant Gwasanaeth a'u cyd-ddisgyblion, yn ychwanegol at eu darpariaeth arferol. Roedd y clwb 'Aml sgiliau' hyn yn caniatáu i'r plant aros ymlaen ar ôl ysgol, gan gynnig gofal plant a oedd ei angen ar y teuluoedd, wrth ddysgu, chwarae a chael hwyl mewn amgylchedd diogel. Defnyddiwyd yr ariannu hefyd i ddarparu iPad fel bod modd i'r plant Gwasanaeth rannu eu gwaith gyda'r rhiant ar leoliad. Mae'r plant hefyd wedi gallu cael galwad fideo pan oedd y rhiant i ffwrdd sydd wedi bod o fudd gwych i'r teulu cyfan.

Mae adnoddau ychwanegol, megis llyfrau ac offer dysgu, wedi'u prynu i uned feithrin yr ysgol – eto i'w defnyddio gan y plant Gwasanaeth a'u cyd-ddisgyblion – ac wedi adnewyddu'r tu allan i ddarparu amgylchedd braf i ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth.



### Profiad teulu



Mae Stacey Mleczek, o Aberystwyth, yn fam i ddau o blant ifanc, Marek a Mollie. Mae ei gŵr, Jack, wedi bod yn y Llynges Frenhinol ers 10 mlynedd. Mae gan ei phlant brofiad o'r straen emosiynol y gellir ei ddioddef pan fydd rhiant i ffwrdd ar leoliad.

*Mae Jack wedi bod yn y Llynges ers dros ddeng mlynedd nawr a byddwn i'n dweud bod angen mwy o gefnogaeth ar blant a theuluoedd yn ôl adref, yn enwedig yn yr ardaloedd ble nad oes nifer anferth o deuluoedd Gwasanaeth eraill.*

*Rydym wedi wynebu nifer o heriau, ac un oedd penderfynu ble i leoli ein hunain fel teulu. A ddylem aros yn ein tref enedigol ble y byddai gennym rwydweithiau teuluol cryf, cartref ac ysgol sefydlog i'r plant ond ble na fyddai'r plant yn gweld Dad cymain? Neu a ddylem symud i Portsmouth ble y byddem yng nghwmni teuluoedd yn yr un sefyllfa ac a fyddai'n gwybod yn union sut ydym yn teimlo, yn gallu gweld Jack bob nos pan na fyddai i ffwrdd ond na fyddai gennym deulu o'n hamgylch, yn enwedig pan fyddai i ffwrdd ar leoliad? Fe wnaethom benderfynu aros yn Aberystwyth fel bod y ddau deulu o'n cwmpas ond rwyf bob amser yn teimlo'n euog nad yw'r plant yn gweld eu Tad.*

*Roedd Marek yn dioddef gorbryder gwahanu ofnadwy oddi wrthyf i pan aeth Jack i ffwrdd. Roedd mynd ag ef i'r ysgol ac i'w ddosbarth yn hynod anodd ac yn ofidus gan y byddai'n sgrechian i mi beidio â'i adael. Pan roedd Jack i ffwrdd am naw mis y llynedd roedd hi'n anodd iawn. Os oeddem yn colli galwad Jack, byddai'n rhaid i ni aros tan y diwrnod wedyn i glywed oddi wrtho ac roedd hynny'n anodd iawn i ni i gyd. Fe wnes i brofi rhai problemau gydag ymddygiad Marek, dim ond oherwydd ei fod yn ceisio delio gydag absenoldeb ei Dad. Rwy'n ei chael hi'n anodd delio gyda'r straen emosiynol ar y plant pan fydd Jack yn mynd i ffwrdd felly byddai unrhyw help yn delio gyda hynny*

yn ddyddiol yn cael ei groesawu. Byddai helpu'r plant i ddysgu sut i ddelio â'r cyfan a dysgu nad hwy yw'r unig blant gyda rhiant yn mynd a dod yn grêt. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yma mae Marek wedi newid yn llwyr. Bellach nid yw'n drist o gwbl ac mae'n hapus wrth fynd i'r ysgol, mae'n hyderus iawn ac nid yw'n poeni dim wrth fy ngadael i ac ymuno â'i ffrindiau wrth gatiau'r ysgol.

Ers i'r ysgol ddod yn ymwybodol o'n sefyllfa, mae'r gefnogaeth mae Marek wedi'i derbyn yn anhygoel. Mae ei athrawon wedi gwneud cymaint gydag ef i'w helpu, siarad ag ef a'i helpu i ddelio â phethau. Mae ganddynt adnoddau newydd i Marek a'i ddosbarth eu defnyddio. Mae Marek wedi defnyddio'r iPad i anfon ei waith at Dad sy'n beth gwych; ein cadw mewn cysylltiad. Cyn i Jack fynd i ffwrdd a phan fydd yn dychwelyd maen nhw bob amser yn ein cefnogi ni trwy gael amser gyda'n gilydd fel teulu sydd mor bwysig.

Nid oedd yr ysgol yn gwybod bod Marek yn blentyn Gwasanaeth hyd at ddwy flynedd ar ôl iddo ddechrau yn yr ysgol gan nad yw'n rhywbeth yr ydych chi'n ei grybwyll mewn gwirionedd. Roeddwn eisiau rhoi gwybod i'r ysgol bod Jack yn mynd i ffwrdd am 9 mis ac felly dyna pan wnes i godi'r peth gan nad oeddwn i'n siŵr sut y byddai'n effeithio ar Marek. Rwy'n hynod ffodus fy mod yn adnabod rhai o'r athrawon felly roeddwn yn gyfforddus yn mynd atynt i esbonio'r sefyllfa ond fe allai hynny fod yn anodd i rai rhieni a allai fod yn newydd i'r ardal."



© Goodluz/Shutterstock.com





# PENNOD 4

## Y GYMRAEG

Mae gan Gymru ddwy iaith swyddogol – Y Gymraeg a'r Saesneg. Mae statws swyddogol yn rhoi grym cyfreithiol, sy'n golygu na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Mae tua 20% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Rhaid i bob disgybl yng Nghymru astudio'r Gymraeg hyd at TGAU.

Fel un o'r ddwy iaith genedlaethol yng Nghymru, mae'r Gymraeg yn rhan ddyddiol o fywyd yr ysgol ac mae'n rhan orfodol o addysg pob plentyn. Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, 3 a 4, byddant yn cael eu hasesu (yn ôl eu haddysg, gwybodaeth a gallu blaenorol). Yng Nghyfnod Allweddol 4, ar hyn o bryd mae'r cwricwlwm yn gofyn i'r holl ddisgyblion astudio cwrs byr yn y Gymraeg (cyfwerth â hanner TGAU). (testun arweiniad SSCE Cymru).

Os yw teulu'r Lluoedd Arfog yn symud i Gymru am y tro cyntaf, efallai na fyddant yn ymwybodol sut y mae'r iaith yn cael ei dysgu mewn ysgolion. Efallai y bydd ganddynt bryderon bod eu plentyn ar ei hôl hi gan fod yr iaith yn gwbl newydd iddynt ac am yr effaith ar eu canlyniadau a'u cynnydd yn yr ysgol.

Yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddweud:

*"The Welsh Government recognises that learners for whom English or Welsh is an additional language (EAL/WAL) have different challenges in relation to language and literacy acquisition. EAL/WAL learners may be accessing English/Welsh for the first time and will, therefore, require additional focused support to help them acquire appropriate literacy skills. Material should be provided that is appropriate to their ability, previous education and experience, and which extends their language development. The year-by-year nature of the expectation statements allows schools and settings to ensure that they are incorporating the appropriate skills into their curriculum delivery."*[1]

Os ydych chi'n pryderu am gyrhaeddiad eich plentyn neu'r heriau y gallent eu hwynebu wrth ddechrau dysgu Cymraeg am y tro cyntaf, mae'n bwysig siarad â'r ysgol i weld pa un yw'r ffordd orau i gefnogi'ch plentyn.

Gall ysgolion helpu i dawelu meddwl rhieni trwy esbonio'r gefnogaeth y maen nhw'n ei chynnig i ddisgyblion sy'n dysgu Cymraeg am y tro cyntaf / y mae'r Gymraeg yn iaith ychwanegol iddynt.

[1] http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/141016-revised-areas-of-learning-and-programmes-of-study.pdf






# PENNOD 5

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae prosiect SSCE Cymru wedi comisiynu ymchwil yng Nghymru sy'n edrych ar brofiadau ac anghenion unigryw plant personél y Lluoedd Arfog sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN). Wedi'i ariannu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, mae Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru mewn partneriaeth gydag Arad Research yn cynnal yr astudiaeth sy'n edrych ar gyflawni tri pheth allweddol erbyn Chwefror 2018. Bydd yr ymchwil yn:

1. Adolygu ac yn casglu data ar nifer y plant Gwasanaeth gyda SEN/ALN yng Nghymru, ac yn ei gymharu â data'r DU
2. Archwilio profiadau teuluoedd a rhanddeiliaid yng nghyswllt cefnogi plant Gwasanaeth gyda SEN/ALN
3. Adnabod goblygiadau o'r ymchwil ar waith, yng nghyd-destun Mesur ALN Cymru

Os hoffech chi gymryd rhan yn yr ymchwil, cysylltwch â:

Dr Mark Llewellyn Ffôn
Ffon: 07824 460625 / 01443 483070
**mark.llewellyn@southwales.ac.uk**

Am ragor o wybodaeth: **http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/additional-learning-special-educational-needs/?skip=1&lang=cy**




# CASGLIAD

## CAMAU A AWGRYMIR I'W CYMRYD

**Ysgolion**

- Sicrhau bod staff yn gallu dysgu am fywyd Gwasanaeth a'r heriau unigryw y gallai plant Gwasanaeth fod yn eu hwynebu, gan godi ymwybyddiaeth o anghenion plant Gwasanaeth yn gyffredinol. Gellir cyflawni hyn trwy feithrin perthnasau da gydag unedau Lluoedd Arfog lleol a chynnal sgyrsiau rheolaidd gyda theuluoedd Gwasanaeth. Annog rhieni i ymgysylltu â'r ysgol neu eu hannog i ymuno â bwrdd yr ysgol fel llywodraethwr, gan greu cysylltiad clir a ffurfiol rhwng yr ysgol a chymuned y Lluoedd Arfog.

- Darparu cefnogaeth ychwanegol i blant Gwasanaeth yn ôl yr angen. Fe allai'r gefnogaeth fod wedi'i sefydlu eisoes trwy waith ehangach yr ysgol ac efallai mai'r cyfan sydd ei angen yw ei deilwra i'r plentyn Gwasanaeth i adlewyrchu'r materion y gallent fod yn eu hwynebu.

- Cysylltu ag ysgolion eraill sydd â phlant Gwasanaeth a rhannu syniadau, polisïau ac arfer i'w helpu i wella eu lles emosiynol a chymdeithasol.

- Gosod arfer safonol i ofyn i rieni pob disgybl newydd sy'n symud i'r ysgol a yw'r plentyn yn dod o deulu Gwasanaeth. A allwch chi ganfod a oes gennych blant Gwasanaeth yn eich ysgol? A allwch chi sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn y cyfnod derbyn? Mae'r Lleng wedi galw am Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) i gael ei newid fel bod yn rhaid i bob ysgol ofyn y cwestiwn hwn, waeth faint o blant gwasanaeth sydd yn yr ardal na pha mor amlwg yw'r gymuned Lluoedd Arfog yn lleol.

- Cysylltu â phrosiect SSCE Cymru ac ymgysylltu ag adnoddau sydd ar gael megis Arweiniadau i Ysgolion a Rhieni.

- Peidiwch â chymryd yn ganiataol gan nad oes gennych ganolfan gerllaw, nad oes gennych blant Gwasanaeth yn eich ysgol.

- Sefydlwch glwb MKC Heroes yn eich ysgol. Cysylltwch â'r sefydliad trwy eu gwefan a byddant yn anfon popeth y mae ei angen arnoch chi i ddechrau.

Mae ysgolion y Mynydd Stryd yn Aberhonddu yn gwneud pwynt o sicrhau bod eu bwrdd llywodraethwyr yn ethol un aelod o gymuned y Lluoedd Arfog ac un llywodraethwr anhyblyg. Mae gan y ddwy ysgol nifer uchel o blant gwasanaeth.

# ENGHREIFFTIAU O ARFER GORAU

Yn RAF Y Fali ar Ynys Môn, mae dau swyddog o'r RAF yn eistedd ar fwrdd y Llywodraethwyr yn Ysgol y Tywyn – un o ysgolion cynradd lleol yr orsaf. Mae hyn yn helpu i adeiladu ar y cysylltiadau cryf rhwng y gymuned Gwasanaeth a'r ysgol leol. Mae disgyblion o'r ysgol leol hefyd yn ymweld â'r orsaf yn rheolaidd ac yn defnyddio'r gampfa ar gyfer gweithgareddau chwaraeon, gan ganiatáu i blant brofi'r cyfleusterau sy'n cael eu cynnig a hwyluso'r integreiddio rhwng y Lluoedd Arfog a'r boblogaeth leol. Mae'r orsaf hefyd yn trefnu digwyddiadau i'r teulu trwy gydol y flwyddyn, gan helpu teuluoedd i gwrdd, ymgysylltu a mwynhau. Yn eu plith y mae digwyddiad diwrnod i'r teulu blynyddol, digwyddiadau parti Calan Gaeaf a Nadolig y plant yr orsaf, ynghyd â digwyddiadau thema mewn nifer o leoliadau ar draws yr orsaf.




Agoriad swyddogol yr adeiladau cymunedol a adnewyddwyd yn nyffryn yr RAF gyda phlant ysgol lleol.



**Awdurdodau lleol:**

- Hyfforddi staff ar weithdrefnau derbyn cywir ar gyfer derbyn disgyblion Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn a chodi ymwybyddiaeth o'r anawsterau posibl y mae teuluoedd Gwasanaeth yn eu hwynebu, ymhlith ysgolion yn yr ardal. Monitro profiad teuluoedd Gwasanaeth wrth fynd drwy'r broses a gweithredu gwelliannau yn ôl yr angen.

- Ceisio cynllunio ymhell o flaen llaw ar gyfer symudiadau disgwyliedig disgyblion Gwasanaeth o rannau eraill o'r wlad neu o dramor. Bydd cysylltiadau da â'r gymuned Lluoedd Arfog trwy fwrdd Cyfamod neu swyddog cyswllt milwrol lleol yn hwyluso llif da o wybodaeth.

- Helpu i sicrhau bod gan unedau milwrol lleol, ysgolion ac awdurdodau lleol berthynas gref a dull o gyfathrebu, er mwyn iddynt godi unrhyw faterion a chyfnewid gwybodaeth ar symudiadau i ddod naill ai i unedau neu deuluoedd e.e. trwy fforwm Cyfamod Lluoedd Arfog lleol.

- Monitro profiad plant Gwasanaeth yn yr ysgolion fel rhan o bolisi addysg ac ymrwymiadau parhaus i'r Cyfamod Lluoedd Arfog. Cynhyrchu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n codi ac adolygu cynnydd ac effeithlonrwydd y camau hynny. Gallwch hefyd sicrhau bod gweithgaredd i gefnogi plant Gwasanaeth yn cael ei adlewyrchu yng nghynlluniau gweithredu Cyfamod trwy ymgysylltu â'ch Eiriolwr Lluoedd Arfog lleol neu arweinydd/swyddog cyswllt awdurdod lleol.

- Darparu gwybodaeth am wasanaethau ar gyfer teuluoedd Gwasanaeth trwy wefan awdurdod lleol a thrwy ysgolion eu hunain.

- Annog cydweithio rhwng ysgolion a'r gymuned Lluoedd Arfog i ddod â disgyblion o'r un anian ynghyd. Siarad â phlant a theuluoedd a chanfod pa gefnogaeth – os o gwbl – sydd ei hangen arnynt, a datblygu rhaglenni i helpu eu lles. Ystyried meithrin rhwydwaith lleol o ysgolion gyda disgyblion Gwasanaeth.

- Darparu cefnogaeth i ysgolion sydd eisiau sefydlu clwb MKC Heroes. Efallai y gallant gysylltu â chlybiau neu gefnogaeth ar ôl ysgol cyfredol yr ydych chi'n eu cynnal.

**Teuluoedd gwasanaeth:**

- Mae cymorth ar gael i rieni gydag ymholiadau derbyn gan y Gwasanaeth Cynghori ar Addysg Plant (CEAS). Mae'r CEAS yn darparu gwybodaeth werthfawr ar dderbyniadau ysgol ac yn cynnal llinell gymorth ffôn ac ar-lein i rieni plant Gwasanaeth sydd ag ymholiadau.

- Cysylltu â'r prosiect SSCE Cymru am gyngor, deunydd ategol v ac arweiniad.

- Mae cymorth ar gael gan y tri Ffederasiwn Teuluoedd gwasanaeth. Maen nhw'n helpu nifer o deuluoedd gydag ymholiadau yn ymwneud ag ysgolion ac yn gallu helpu i drafod y broses a chynnig cyngor.

- Siarad â'ch ysgol a dweud wrthynt fod eich plentyn o deulu Gwasanaeth – cyn gynted ag y gallwch chi. Os yw lleoli yn achosi problemau i chi fel teulu, mae'r ysgol mewn sefyllfa dda i'ch cefnogi chi a byddant eisiau clywed gennych chi er mwyn iddynt ddiwallu anghenion eu disgyblion gorau y gallant a deall beth allai fod yn effeithio arnynt.

- Siarad â'ch uned, HIVE neu'r gwasanaeth lles o fewn y Weinyddiaeth Amddiffyn am ystod o gefnogaeth.

- Edrych ar Gynllun Gwobr y Llywydd Adran y Merched y Lleng Brydeinig Frenhinol os yw'ch plentyn / person ifanc angen peth cymorth gyda chostau astudio mewn ysgol neu goleg neu i fynd i brifysgol.

**Llywodraeth Cymru:**

- Sicrhau bod plant Gwasanaeth yn cael eu hadnabod o fewn ysgolion trwy'r system PLASC.

- Archwilio posibilrwydd o Bremiwm Disgybl Gwasanaeth i Gymru. Mae enghreifftiau gwych yng Nghymru o ble mae'r gronfa Cymorth Addysg yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gefnogi plant Gwasanaeth mewn ysgolion. Byddai'r Lleng unwaith eto yn annog Llywodraeth Cymru i archwilio gweithredu Premiwm Disgybl Gwasanaeth i Gymru, yn enwedig os daw gronfa'r Weinyddiaeth Amddiffyn i ben gan adael plant Gwasanaeth yng Nghymru o dan anfantais o ran ariannu wedi'i dargedu.





- **Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin** – mae ganddynt arbenigwr addysg a gofal plant pwrpasol: **www.aff.org.uk**

- **Gwasanaeth Cynghori ar Addysg i Blant (CEAS):**
  **https://www.gov.uk/guidance/childrens-education-advisory-service**

- **Llywodraeth Cymru:**
  Croeso i Gymru:
  **http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/armedforces/package-of-support/?lang=en**

  Cod Derbyniadau Ysgol:
  **http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/admissions-and-appeals-code/?lang=en**

- **MKC Heroes:**
  **www.mkcheroes.co.uk**

- **Ffederasiwn Teuluoedd Llyngesol:**
  **www.nff.org.uk**

- **Fy ysgol leol**
  Gwefan Llywodraeth Cymru sy'n cynnig gwybodaeth bwysig ar ysgolion lleol gan gynnwys niferoedd disgyblion, cyrhaeddiad, cyrsiau a astudir, cyllideb ysgol fesul disgybl a meincnodi.
  **http://mylocalschool.wales.gov.uk/**

- **Ein Cymuned, Ein Cyfamod: Gwella Cyflenwi addewidion Cyfamod lleol:**
  **https://www.gov.uk/government/publications/armed-forces-community-covenant/armed-forces-community-covenant**

- **Ffederasiwn Teuluoedd RAF:**
  **www.raf-ff.org.uk**

- **SSCE Cymru:**
  **http://www.sscecymru.co.uk/home/**
  **http://www.sscecymru.co.uk/home.php?page_id=1&setLanguage=2**

- **Porth Cyn-filwyr**
  Mae porth cyn-filwyr yn gosod cyn-filwyr a'u teuluoedd mewn cysylltiad â'r sefydliadau sydd yn y safle gorau i helpu gyda'r wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt – o ofal iechyd a thai i gyflogadwyedd, cyllid, perthnasau personol a mwy.
  **www.veteransgateway.org.uk/**
  **https://cynnal.veteransgateway.org.uk/app/self_help/p/94**

- **Cynllun Gwobr y Llywydd Adran y Merched y Lleng Brydeinig Frenhinol –** gall ddarparu grantiau addysgol ac ysgoloriaethau i blant milwyr sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr rhengau nad ydynt wedi'u comisiynu hyd at oed prifysgol.

  Mae gwybodaeth lawn am y gwobrau a'r broses ymgeisio i'w chael ar y wefan:
  **www.rblws.org.uk/how-we-help/president-s-award-scheme**

- **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
  **http://wlga.cymru/home**

Dymuna'r Lleng Brydeinig Frenhinol ddiolch i bawb sydd wedi ymddangos yn y cyhoeddiad hwn yn enwedig y teuluoedd Gwasanaeth a'r ysgolion am eu cefnogaeth.




LIVE ON

THE ROYAL BRITISH LEGION

Registered charity number 219279
www.britishlegion.org.uk